HYWEL ap Syr MATHEW (bu farw 1581), bardd, achydd, a milwr

Enw: Hywel ap Syr Mathew
Dyddiad marw: 1581
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, achydd, a milwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Milwrol; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Ray Looker

Brodor o ddyffryn Tyfeidiog (Teme) yn sir Faesyfed. Ymhlith ei farddoniaeth ceir cywyddau i'r esgob Richard Davies, Wiliam Herbert, iarll Penfro, Mathew ap Morus o Geri, Siencyn ap Dafydd o Lanarthne, ac awdl i Lewys Gwyn o Lyn Nedd (Llanstephan MS 133 (71, 712), Llanstephan MS 30 (384), Hafod MS. 13 (197), Brogyntyn MS. 2 (529). Dysgir oddi wrth gopi (diwedd y 16eg ganrif) o'i Hanes Prydain (Peniarth MS 168 (178)) iddo fod yn bresennol yng ngwarchae Boulogne yn 1544. Ymddengys hefyd ei fod yn Babydd selog. Y mae Peniarth MS 138 a rhannau o Cardiff MS. 50 (sef 274-5, 293-356) yn ei law. Defnyddiwyd ei lawysgrifau ef gan Lewys Dwnn wrth baratoi Peniarth MS 268 . Dywedir bod Rhys Cain a Lewys Dwnn wedi canmol ei lawysgrifau, a bod yr ail fardd yn ddisgybl iddo. Canodd Lewys farwnad iddo pan fu farw ar 20 Gorffennaf 1581 (Peniarth MS 96 (371)).

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards*(London 1794), 87

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)

Reports of the Historical Manuscripts Commission, I, ii; II, 1

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hywel ap Syr Mathew

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5962777

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Looker, R., (1953). HYWEL ap Syr MATHEW (bu farw 1581), bardd, achydd, a milwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HYWE-APM-1581

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government